# Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Amnewid Castell-nedd Port Talbot

## Crynodeb Annhechnegol – Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Dogfen Cyn Adnau y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (Strategaeth a Ffafrir y CDLlA)

Ar ran **Cyngor Castell-nedd Port Talbot**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cyf. Prosiect: 332010068 | Diwygiad: 1 | Dyddiad: Rhagfyr 2024

Swyddfa Gofrestredig: Buckingham Court Kingsmead Business Park, London Road, High Wycombe, Buckinghamshire, HP11 1JU
Cyfeiriad y Swyddfa: Lakeside House, Blackbrook Business Park, Blackbrook Park Avenue, Taunton TA1 2PX
T: +44 (0)182 321 8940 E: info.Taunton.UK@stantec.com

# Taflen Reoli'r Ddogfen

**Enw'r Prosiect:** **Adolygiad CDLI Castell-nedd Port Talbot**

**Cyf. y Prosiect:** **332010068**

**Teitl yr Adroddiad:** **Crynodeb Annhechnegol – ACI o Ddogfen Cyn Adnau y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid**

**Cyf. y ddogfen:** **v1.0**

**Dyddiad:** **Rhagfyr 2024**

| | Enw | Swydd | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| **Paratowyd gan:** | Kin Lo | Uwch Ymgynghorydd Amgylcheddol | KL | 11.10.2024 |
| **Adolygwyd gan:** | Jon Pyke | Gwiriwr Annibynnol | JP | 12.10.2024 |
| **Cymeradwywyd gan:** | Rebecca Miller | Cynllunydd Cysylltiol | RM | 13.10.2024 |
| **Cymeradwywyd gan:** | Sam Harper | Cyfarwyddwr | SH | 15.10.2024 |
| **Dros ac ar ran Stantec UK Limited** | | | | |

| Diwygio | Dyddiad | Disgrifiad | Paratoi | Adolygu | Cymeradwyo |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi gan Stantec UK Limited ('Stantec') ar ran y cleient y cyfeirir yr adroddiad hwn ato ('y Cleient') mewn cysylltiad â'r prosiect a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, ac mae'n cymryd i ystyriaeth gyfarwyddiadau a gofynion penodol y Cleient. Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r penodiad gwasanaethau proffesiynol y penodwyd Stantec oddi tanynt gan y Cleient. Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti (h.y. partïon heblaw'r Cleient), ac ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno. Nid yw Stantec yn derbyn unrhyw ddyletswydd na chyfrifoldeb (gan gynnwys drwy esgeulustod) i unrhyw barti heblaw'r Cleient, ac mae'n ymwadu pob atebolrwydd o bob math i unrhyw barti o'r fath yng nghyswllt yr adroddiad hwn.

# Cynnwys

**1 Cyflwyniad ... 1**
1.1 Cefndir ... 1
1.2 Strategaeth a Ffafrir CDLI CNPT ... 1
**2 Trosolwg o Adolygiad CDLI CNPT ... 2**
**3 Y Cyd-destun Amgylcheddol a Pholisi ... 3**
3.1 Materion Cynaliadwyedd Allweddol ... 3
3.2 Y berthynas rhwng Adolygiad y CDLI a Chynlluniau a Rhaglenni Eraill Perthnasol ... 9
3.3 Esblygiad Amodau Gwaelodlin yn Absenoldeb Adolygiad y CDLI ... 10
**4 Proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd ... 12**
4.1 Tîm Prosiect yr AC ... 12
4.2 Adrodd ar AC ac AAS Blaenorol ... 12
4.3 Ymgynghori Anffurfiol ar y Materion Allweddol, y Weledigaeth, yr Amcanion, Twf a'r Opsiynau Gofodol ... 12
4.4 Ymgysylltu â Chyrff Ymgynghori'r AAS ... 12
**5 Canfyddiadau'r AC ...** Error! Bookmark not defined.
5.1 AC o Fframwaith Strategol Arfaethedig y CDLI ... 15
5.2 AC o Safleoedd Strategol ... 19
5.3 AC o Bolisïau Strategol ... 20
5.4 Asesiad o'r Effeithiau Cronnol a'r Effeithiau Synergaidd ... 21
**6 Y Camau Nesaf ... 27**

# Ffigurau

**Ffigur NTS-2.1** Ffin Cyngor CNPT ... 2
**Ffigur NTS-5.1** Y Strategaeth Ofodol a Ffafrir (h.y. Opsiwn F) ... 19

# Tablau

**Tabl NTS-3.1:** Materion Cynaliadwyedd Allweddol sy’n ymwneud ag Adolygiad CDLI CNPT ... 4
**Tabl NTS-5.1:** Crynodeb ACI o’r Strategaeth a Ffafrir ar gyfer y Cyfnod Adeiladu ... 21
**Tabl NTS-5.2:** Crynodeb ACI o’r Strategaeth a Ffafrir ar gyfer y Cyfnod Gweithredu ... 23

| **Rhestr o Fyrfoddau** | |
|---|---|
| AMB | Adroddiad Monitro Blynyddol |
| LlCD | Llawlyfrau Cynlluniau Datblygu |
| AEG | Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb |
| AEA | Asesiad Effaith Amgylcheddol |
| AA | Adroddiad Amgylcheddol |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| AEI | Asesiad Effaith ar Iechyd |
| ARhC | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| ACI | Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| ACLl | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| LSE | Effaith Sylweddol Debygol |
| ADG | Ardal Dwf Genedlaethol |
| GNG | Gwarchodfa Natur Genedlaethol |
| CBSCNPT | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| CCNPT | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| BGCCNPT | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT |
| PCPA | Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol |
| PCC | Polisi Cynllunio Cymru |
| PWA | Deddf Cynllunio (Cymru) |

| **Rhestr o Fyrfoddau** | |
|---|---|
| REN | Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth |
| ATRh | Ardaloedd Twf Rhanbarthol |
| CDLIA | Cynllun Datblygu Lleol Amnewid |
| AA | Adroddiad Adolygu |
| AC | Arfarniad Cynaliadwyedd |
| ACAoedd | Ardaloedd Cadwraeth Arbennig |
| BDdBA | Bargen Ddinesig Bae Abertawe |
| AAS | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| CDS | Cynllun Datblygu Strategol |
| SoNaRR | Ail Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol |
| AAA | Ardal Amddiffyn Arbennig |
| CCA | Canllaw Cynllunio Atodol |
| AChS | Ardaloedd Chwilio Strategol |
| SoDdGA | Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| TAN | Nodiadau cyngor technegol |
| TAN 20 | Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a’r Gymraeg |
| DLlCD | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) |
| LlCD | Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol |
| AEG | Asesiad Effaith ar y Gymraeg |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

1.1.1 Mae cyhoeddi Adroddiad Adolygu'r CDLl Drafft (CCNPT, 2020) wedi sbarduno proses ar gyfer paratoi CDLlA ac yna ei fabwysiadu ar gyfer ardal Cyngor Castell-nedd Port Talbot (CCNPT). O ganlyniad, mae gofynion statudol sy'n ymwneud â pharatoi CDLliau (Cynlluniau Datblygu Lleol) yn awr yn berthnasol i Adolygiad y CDLl, gan gynnwys o ran AC ac AAS.

1.1.2 Dechreuodd CCNPT weithio ar ei Gynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA) yn 2021. Mae canfyddiadau cychwynnol 'Galwad am Safleoedd' 2022, ochr yn ochr â gwybodaeth a gafwyd o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol, a rhagolygon twf yn dangos bod angen nodi tir ychwanegol ar gyfer tai, a bod materion dichonoldeb a seilwaith presennol y mae angen mwy o amser i'w goresgyn.

1.1.3 O ystyried hynny, penderfynodd y Cyngor roi'r gorau i baratoi'r CDLlA, a dechrau'r broses eto. Cymeradwywyd Cytundeb Cyflawni Drafft (CC) gan y Cyngor ar 4 Hydref 2023, ac yn dilyn ymgynghori, fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru (LlC).

1.1.4 Wedi hynny, cymeradwywyd y CC gan LlC ar 26 Hydref 2023, ac mae'n caniatáu i Gyngor CNPT fynd ati'n ffurfiol i ddechrau paratoi'r CDLlA. Mae'r CC yn cyflwyno proses 3.5 mlynedd sy'n rhagweld mabwysiadu CDLlA ym mis Ebrill 2027, gyda'r cynllun yn dod i ben yn 2038.

1.1.5 O dan Adran 62(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Deddf 2004), mae angen i CDLlau sy'n dod i'r amlwg fod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd (AC), sy'n statudol ofynnol i lywio dethol a datblygu polisïau a chynigion i'w cynnwys mewn CDLliau o ran eu heffeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd posibl.

1.1.6 Bydd angen i'r AC sy'n ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer Adolygiad y CDLl adeiladu ar yr AC, gan ymgorffori'r AAS, a baratowyd ar gyfer CDLl CNPT 2011-2026 (a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2016). Gan fod y drefn 'Adolygiad Llawn' yn cael ei defnyddio, bydd Adolygiad y CDLl i bob pwrpas yn adlewyrchu'r broses o baratoi'r CDLl gwreiddiol, ac yn arwain at baratoi a mabwysiadu CDLlA (yn hytrach na bod y CDLl presennol yn destun newidiadau unigol yn unig).


1.1.7 Wrth ymgymryd ag AC, mae LlC yn gofyn i ACLlau ystyried gwerth a chyfleoedd dull asesu integredig wrth baratoi CDLl. Mae paragraff 4.5 o'r LlCD Argraffiad 3 (2020) o'r farn y bydd "Integreiddio elfennau statudol ac allweddol megis gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (DLlCD) 2015, Deddf Cydraddoldeb, y Gymraeg, ac Asesiad Effaith ar Iechyd (AEI) (lle bo hynny'n berthnasol) i greu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) sengl yn golygu bod modd sicrhau asesiad mwy tryloyw, cyfannol a chrwn o oblygiadau cynaliadwyedd opsiynau twf, amcanion, polisïau a chynigion". O ganlyniad, er mwyn cyflawni'r manteision hyn wrth fodloni'r gofynion statudol perthnasol, rhaid cynnal ACI ar gyfer Adolygiad CDLl CNPT.

## 1.2 Strategaeth a Ffafrir CDLl CNPT

1.2.1 Yn unol â'r gofynion statudol, mae Strategaeth a Ffafrir CDLl CNPT yn cael ei gyhoeddi i lywio CDLlA CNPT sy'n dod i'r amlwg ('y CDLlA sy'n dod i'r amlwg'). Mae Strategaeth a Ffafrir y CDLlA yn cyflwyno fframwaith strategol arfaethedig yn sylfaen ar gyfer y CDLlA sy'n dod i'r amlwg, sy'n cynnwys Gweledigaeth, Amcanion Strategol a Strategaeth Twf, a gefnogir gan Safleoedd Allweddol a Pholisïau Strategol a gynigir. Bydd yr elfennau strategol hyn yn destun datblygu pellach er mwyn cymryd i ystyriaeth ganfyddiadau'r AC hwn a'r holl sylwadau a gyflwynwyd ynghylch Dogfennau Cyn Adnau CDLl CNPT, gyda chynnwys terfynol arfaethedig y CDLlA sy'n dod i'r amlwg yn cael ei gadarnhau yn Nogfennau Adnau CDLl CNPT (a ddisgwylir yn hydref 2025).

# 2 Trosolwg o Adolygiad CDLI CNPT

**2.1.1** CCNPT yw'r awdurdod unedol sy'n gyfrifol am lywodraeth leol ar draws ardal 442km$^2$ o Dde Cymru, fel y dangosir yn **Ffigur NTS-2.1**. Lleolir CCNPT yn Rhanbarth De-orllewin Cymru (fel y nodwyd yn Cymru'r Dyfodol: fframwaith Cynllun Cenedlaethol 2040 'Cymru'r Dyfodol') ochr yn ochr ag ardaloedd Awdurdod Lleol (ALl) Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro ac Abertawe. Yr awdurdodau cymdogol yw Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Powys a Sir Gaerfyrddin.




**Ffigur NTS-2.1** Ffiniau Cyngor CNPT

# 3 Y Cyd-destun Amgylcheddol a Pholisi

## 3.1 Materion Cynaliadwyedd Allweddol

3.1.1 Ceir crynodeb o'r prif faterion cynaliadwyedd y mae angen eu hystyried yn y CDLlA sy'n dod i'r amlwg a'r AC cysylltiedig yn **Nhabl NTS 2.1** isod. Mae'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg a'r AC hwn yn canolbwyntio ar roi sylw i'r materion cynaliadwyedd hyn.

**Tabl NTS-3.1:** Materion Cynaliadwyedd Allweddol sy’n ymwneud ag Adolygiad CDLl CNPT

| Testun yr AAS | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna | Yr angen am gadw, diogelu a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau pwysig a safleoedd a ddynodwyd am resymau cadw bioamrywiaeth neu bwysigrwydd ecolegol. Mae hyn yn ymwneud â diogelu safleoedd dynodedig a leolir yn CNPT, yn ogystal â safleoedd dynodedig mewn awdurdodau cymdogol, sydd fel ei gilydd â photensial i deimlo effaith Adolygiad y CDLl a gweithgarwch datblygu yn CNPT.<br><br>Bydd angen am nodi ardaloedd a/neu gyfleoedd i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei gynnal a’i wella, a chyflawni mantais net, ochr yn ochr â sicrhau yr osgoir effeithiau niweidiol ar ardaloedd a amddiffynnir a rhai a ddynodwyd yn lleol.<br><br>Yr angen am ddiogelu a gwella’r rhwydwaith seilwaith gwyrdd, a chynnal a gwella cysylltiadau tirlun a bioamrywiaeth rhwng safleoedd a chynefinoedd dynodedig, yn lleol ac ar raddfa tirlun (h.y. o fewn CNPT ac i’r rhai mewn awdurdodau cymdogol).<br><br>Yr angen am warchod a gwella gwydnwch ecosystemau a diogelu rhwydweithiau ecolegol cydnerth (RENs).<br><br>Yr angen am ystyried yn llawn oblygiadau argyfwng byd natur. Wrth roi syw i’r materion allweddol uchod, mae angen penodol hefyd am fodloni dyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, fel y rhagnodwyd yn adran 6 o Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016. |
| Poblogaeth (gan gynnwys materion sosio-economaidd perthnasol) | Yr angen am gefnogi cyflawni Amcanion Llesiant Lleol CNPT fel rhan o fodloni gofynion datblygu cynaliadwy (fel y nodwyd yn Adran 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015).<br><br>Yr angen am gyflwyno cwantwm digonol o dai newydd o safon uchel mewn lleoliadau da i ymateb i ystod o anghenion a nodwyd.<br><br>Yr angen am gyflawni twf economaidd a chynyddu cyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys ar gyfer trigolion lleol. Yr angen am fynd i’r afael ag anghydraddoldeb mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.<br><br>Yr angen am fynd i’r afael ag amddifadedd, gan gynnwys ardaloedd sydd eisoes yn ddifreintiedig sy’n gysylltiedig â mynediad gwael at wasanaethau allweddol, cyfleusterau a chyfleoedd economaidd.<br><br>Yr angen am sicrhau bod cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn briodol ac yn hygyrch i ddefnyddwyr, er |

| Testun yr AAS | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| | mwyn ymateb i anghenion amrywiol trigolion a gweithwyr.<br><br>Yr angen am wella hygyrchedd cyrchfannau allweddol yn CNPT a mynediad at leoliadau allweddol eraill trwy wella'r rhwydwaith trafnidiaeth. |
| Iechyd Dynol | Yr angen am wella pob agwedd ar iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gynnwys iechyd corff a meddwl, llesiant cymdeithasol, diogelwch a diogeledd.<br><br>Yr angen am warchod a gwella mynediad at gyfleusterau cymunedol, cyfleusterau gofal iechyd, darpariaeth mannau agored o safon uchel a llwybrau teithio llesol i'r holl drigolion.<br><br>Yr angen am greu amgylcheddau trefol diogel, iach, y mae modd byw ynddynt.<br><br>Yr angen am gefnogi cyflawni Amcanion Llesiant Lleol CNPT er mwyn gwella iechyd holl drigolion CNPT.<br><br>Yr angen am gefnogi nodau Datganiad Ardal De-orllewin Cymru mewn perthynas â thema 'Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd'.<br><br>Yr angen am roi sylw i'r aflonyddu mae rhai trigolion â gofynion ychwanegol yn ei brofi, a'r gwahaniaethu yn eu herbyn.<br><br>Yr angen am fonitro data a gwybodaeth yng nghyswllt gwella iechyd yr holl drigolion. |
| Pridd | Yr angen am annog a/neu hwyluso datblygu ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol.<br><br>Yr angen am ddiogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas rhag datblygu.<br><br>Yr angen am fwyafu defnydd effeithlon o'r tir sydd ar gael a rhoi blaenoriaeth i ailddatblygu tir llwyd.<br><br>Yr angen am ddiogelu geoamrywiaeth, adnoddau pridd pwysig ac adfer ardaloedd lle mae halogiad hysbys, yn |

| Testun yr AAS | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| | enwedig ar safleoedd ôl-ddiwydiannol.<br><br>Yr angen am leihau allyriadau a llygredd nitradau amaethyddiaeth.<br><br>Yr angen am leiafu erydiad pridd a cholli pridd i arwynebau anhydraidd.<br><br>Yr angen am warchod, gwella ac adfer adnoddau pridd pwysig, gan gynnwys mawndir.<br><br>Yr angen am gefnogi nodau Datganiad Ardal De-orllewin Cymru ynghylch gwarchod, gwella ac adfer adnoddau pridd pwysig mewn perthynas â thema 'Sicrhau bod Tir yn cael ei Reoli'n Gynaliadwy'. |
| Dŵr | Yr angen am warchod a gwella ansawdd adnoddau dŵr a'r amgylchedd dŵr. Mae hynny'n cwmpasu gwarchod dyfrffyrdd trawsffiniol sy'n llifo trwy CNPT i mewn i Afonydd Nedd ac Afan, sy'n llifo i Fae Abertawe. Mae hefyd yn galw am warchod, cynnal a gwella seilwaith draenio. Mae hynny'n cynnwys ystyried cyfleoedd i reoli dalgylchoedd dŵr mewn modd integredig, fel y nodir yn 'Dalgylchoedd Cyfleoedd' Bae Abertawe, a ddisgrifiwyd yng Nghynlluniau Rheoli Basn Afonydd y trydydd cylch (RBMP) (2021-2027).<br><br>Yr angen am ymdrin ag effeithiau ar ansawdd dŵr ar draws y fwrdeistref a achosir gan lygredd ffynhonnell benodol, o ganlyniad i broffil diwydiannol CNPT.<br><br>Yr angen am leoli datblygiadau newydd i ffwrdd oddi wrth ardaloedd perygl llifogydd, er mwyn lliniaru'n llawn risgiau llifogydd posibl o bob ffynhonnell, ac atgyfnerthu amddiffynfeydd rhag llifogydd i'r dyfodol. |
| Aer | Yr angen am leiafu allyriadau llygryddion aer.<br><br>Yr angen am ddiogelu a gwella ansawdd aer, gan gynnwys trwy roi sylw i ardaloedd sydd ag ansawdd aer gwael.<br><br>Yr angen am ymdrin â'r ansawdd aer gwael a arweiniodd at gyhoeddi argyfwng iechyd cyhoeddus gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn arbennig yng nghyswllt amonia. |

| Testun yr AAS | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| Ffactorau Hinsoddol | Yr angen am sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig a seilwaith yn gydnerth ac yn gallu addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, gan gymryd i ystyriaeth leoliad arfordirol CNPT.<br><br>Yr angen am sicrhau bod ecosystemau a'r amgylchedd naturiol yn gydnerth ac yn gallu addasu i'r newid yn yr hinsawdd.<br><br>Yr angen am liniaru'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys trwy ddatgarboneiddio sectorau economaidd allweddol.<br><br>Yr angen am sicrhau bod y CDLIA yn cyflawni dyheadau o ran addasu i'r newid yn yr hinsawdd neu ei liniaru. Yn arbennig, ni ddylid cymeradwyo cynigion sy'n mynd yn groes i'r polisi a'r rhai sy'n methu â chadw at y gofynion dwysedd mewn ardaloedd a amddiffynnir a rhai lle ceir perygl llifogydd.<br><br>Yr angen am annog datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy/carbon isel yn CNPT.<br><br>Yr angen am liniaru effeithiau ansawdd aer a dŵr a achosir gan ddefnyddiau diwydiannol yn y fwrdeistref.<br><br>Yr angen am liniaru a rhoi sylw i argyfwng yr hinsawdd a gyhoeddwyd gan LIC ym mis Ebrill 2019.<br><br>Yr angen am gefnogi nodau Datganiad Ardal De-orllewin Cymru wrth liniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd mewn perthynas â nodau'r thema 'Lliniaru ac Addasu i Hinsawdd Newidiol'.<br><br>Yr angen am liniaru a rhoi sylw i argyfwng byd natur a gyhoeddwyd gan LIC ym mis Mehefin 2021.<br><br>Yr angen am gefnogi nodau Cynlluniau Rheoli Traethlin (CRhTiau) wrth ymdrin ag erydiad arfordirol. |
| Asedau Materol | Yr angen am fwyafu defnydd effeithlon o dir, adnoddau naturiol a seilwaith sydd eisoes yn bodoli. Mae hynny'n cynnwys yr angen am flaenoriaethu ailddatblygu tir llwyd, ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau, a lleiafu'r gwastraff a anfonir i'w dirlenwi.<br><br>Yr angen am roi sylw i effeithiau sosio-economaidd mewn ardaloedd sy'n profi dirywiad ôl-ddiwydiannol trwy ddatblygiad newydd. |

| Testun yr AAS | Materion Cynaliadwyedd Allweddol |
|---|---|
| | Yr angen am ddeall yr effeithiau ar adnoddau naturiol oherwydd ôl troed datblygiad.<br><br>Yr angen am nodi cyfleoedd i weithredu er mwyn creu lleoedd iach i bobl, fel y nodir yn y fframwaith DISRUPT yn yr Ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR 2020). |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | Yr angen am gadw, gwarchod a gwella asedau hanesyddol a'u cyd-destunau yn CNPT.<br><br>Yr angen am ddiogelu a chefnogi twf yn y defnydd o'r Gymraeg. |
| Tirlun | Yr angen am warchod a gwella cymeriad y tirlun, cymeriad y treflun, golygfeydd allweddol, ac amwynder gweledol. Mae hynny'n cwmpasu gwarchod tirluniau yn y rhannau o CNPT sydd o fewn i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mewn awdurdodau eraill cymdogol, yn ogystal â chymeriad y morlun, gan gynnwys arfordiroedd treftadaeth ac ardaloedd cymeriad morol.<br><br>Yr angen am warchod llonyddwch ac ymdrin â phroblemau llygredd golau fel y nodir yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 11: Sŵn a TAN 12: Dylunio |
| Effeithiau rhyng-gysylltiedig | Yr angen am gyflawni gwelliannau cyfannol i lesiant, a chyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ar draws CNPT, yn arbennig o ran hybu cydlyniant cymdeithasol.<br><br>Yr angen am hybu mynediad at wasanaethau a gwybodaeth i bawb, i sicrhau mynediad cyfartal i drigolion sydd ag anghenion ychwanegol. |

3.1.2 Ceir tystiolaeth o’r prif faterion cynaliadwyedd a restrir yn **Nhabl NTS-3.1** mewn Papurau Cefndir a Phwnc perthnasol a baratowyd ar gyfer Adolygiad y CDLl ac sy’n cael eu hadlewyrchu yn y cynigion terfynol a nodwyd yn Strategaeth a Ffafrir y CDLIA. Yn gyffredinol, mae hynny’n helpu i sicrhau bod cyfeiriad teithio’r CDLIA sy’n dod i’r amlwg yn ymateb i faterion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd trwy broses yr AC. Fodd bynnag, mae’n dal yn angenrheidiol archwilio pob elfen derfynol o’r CDLIA sy’n dod i’r amlwg yn unigol ac ar y cyd, er mwyn pennu eu heffeithiau sylweddol tebygol, ac i ba raddau maen nhw’n cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy.

## 3.2 Y berthynas rhwng Adolygiad y CDLl a Chynlluniau a Rhaglenni Eraill Perthnasol

3.2.1 Archwiliwyd y mathau canlynol o gynlluniau a rhaglenni o ran eu perthnasedd i Adolygiad y CDLl a’r ACI:

- Confensiynau a chytuniadau rhyngwladol;
- Cyfarwyddebau Ewropeaidd a deddfwriaeth gysylltiedig;
- Deddfwriaeth a weithredwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru; a,
- Dogfennau polisi a strategaethau a gyhoeddwyd ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan gynnwys rhai gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, LlC (a’i hasiantaethau), CCNPT a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT (BGCCNPT).

3.2.2 Ceir adolygiad manwl o’r cynlluniau a’r rhaglenni eraill y nodwyd eu bod yn berthnasol i Adolygiad y CDLl yn **Atodiad B i’r Adroddiad ACI**. Ar sail yr adolygiad hwnnw, mae’n eglur y dylai’r CDLIA wneud y canlynol:

- Alinio â’r gofynion polisi cynllunio cenedlaethol perthnasol a gyflwynwyd yn PCC – Argraffiad 12 (Chwefror 2024);
- Ceisio manteisio’n llawn ar y cyfleoedd sosio-economaidd a gyflwynir gan Brosiect Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli (ADG);
- Alinio â Cymru’r Dyfodol a’r gofyniad i baratoi CDU ar gyfer De-orllewin Cymru;
- Ceisio gwella pob agwedd ar iechyd a llesiant i boblogaeth CNPT, gan gynnwys trwy ddarparu seilwaith iechyd o safon uchel, gwella iechyd corfforol a meddyliol, a darparu cyfleoedd i wella llesiant cymdeithasol. Yn unol ag Adran 3 o DdLlCD, dylai Adolygiad y CDLl (fydd yn arwain at fabwysiadu CDLIA) gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a chefnogi cyflawni amcanion llesiant a ddiffiniwyd yn lleol, fel y nodwyd yng Nghynllun Llesiant CNPT 2023 – 2028;.
- Sicrhau twf economaidd cynaliadwy a mewnfuddsoddi ar draws CNPT trwy ddyrannu safleoedd addas i’w datblygu a chyflwyno’r seilwaith angenrheidiol i gynyddu cysylltedd, gwella seilwaith cymdeithasol a chymunedol, a chynyddu mynediad at gyfleoedd cyflogaeth ac economaidd o safon uchel. Bydd hefyd yn bwysig i’r CDLIA gyflwyno strategaeth ofodol sy’n mwyafu cystadleurwydd economaidd CNPT ac yn gwella llesiant cymdeithasol, gan gymryd i ystyriaeth ei safle ar gyrion Dinas-Ranbarth Abertawe a’i sefyllfa sosio-economaidd bresennol;
- Nodi a chynllunio ar gyfer diwallu anghenion yr holl drigolion a gweithwyr yn CNPT, yn arbennig o ran darparu seilwaith cymunedol digonol;

- Cyflwyno cartrefi fforddiadwy a ddyluniwyd yn dda er mwyn ymateb i'r anghenion tai a nodwyd, gan gynnwys darparu amrywiaeth o ran maint a deiliadaeth;
- Lleihau'r ddibyniaeth ar geir a gwella seilwaith teithio llesol;
- Cyflwyno cysylltiadau trafnidiaeth gwell ac ehangach, trafnidiaeth gyhoeddus a gwell seilwaith cyfathrebu, i gymunedau yn CNPT a chyrchfannau allweddol mewn awdurdodau cymdogol;
- Gwarchod a gwella mynediad at gyfleusterau chwaraeon awyr agored o safon uchel, parciau a mannau agored;
- Cadw, diogelu, gwarchod a gwella safleoedd a ddynodwyd ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol am resymau cadwraeth bioamrywiaeth, pwysigrwydd ecolegol, pwysigrwydd daearegol neu arwyddocâd treftadaeth, mewn ffyrdd sy'n briodol i'w statws;
- Datblygu technegau effeithiol ar gyfer cysylltu â'r gymuned i ymateb i farn cymunedau ehangach a hwyluso cydlyniant cymunedol effeithiol;
- Hybu defnydd effeithlon o adnoddau, gan gynnwys symud tuag at economi carbon isel, defnyddio gwastraff fel adnodd, adeiladau effeithlon o ran ynni, ac ynni priodol adnewyddadwy a charbon isel;
- Rhoi mesurau ar waith i warchod lefelau ansawdd aer a cheisio lliniaru unrhyw weithgarwch a allai effeithio ar lefelau ansawdd aer ar draws CNPT;
- Sicrhau nad oes effeithiau negyddol sylweddol ar safleoedd natur a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol (cyfeirier at yr Adroddiad Sgrinio Cychwynnol ar wahân ar gyfer yr ARhC i gael rhagor o fanylion);
- Rhoi ystyriaeth lawn i'r effeithiau posibl ar ddŵr, gan gynnwys ansawdd dŵr, ecosystemau, defnydd cynaliadwy o ddŵr, capasiti carthffosiaeth, perygl llifogydd a'r cyfleoedd i wella rheolaeth ar berygl llifogydd;
- Chwilio am ffyrdd o fwyafu cwmpas y seilwaith gwyrdd amlswyddogaeth, a sicrhau bod hynny'n darparu rhwydwaith o goridorau bywyd gwyllt cysylltiedig (ar draws ystod eang o raddfeydd), a chynyddu gwasanaethau ecosystemau, gan gynnwys bioamrywiaeth;
- Chwilio am ffyrdd o fwyafu manteision iechyd seilwaith gwyrdd;
- Defnyddio tir yn effeithlon trwy roi blaenoriaeth i ddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol;
- Ystyried ansawdd pridd a dosbarthiad tir amaethyddol wrth asesu safleoedd datblygu posibl;
- Cydnabod y gwahanol dirluniau yn ardal CCNPT a'u capasiti i ddarparu ar gyfer newid; a,
- Hybu datblygiad sy'n lleiafu'r effeithiau ar y tirlun ac yn gwarchod tirweddau yn ôl eu harwyddocâd.

## 3.3 Esblygiad Amodau Gwaelodlin yn Absenoldeb Adolygiad y CDLl

3.3.1 Mae CCNPT wedi penderfynu bod angen adolygu'r CDLl presennol (2011-2026, a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2016) er mwyn caniatáu i CCNPT baratoi a mabwysiadu CDLlA cyn diwedd cyfnod y CDLl cyfredol. Mae Adroddiad Adolygiad CDLl CNPT (CCNPT, 2020) yn dod i'r casgliad bod angen trefnu 'Adolygiad Llawn' i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r CDLl presennol a pharatoi CDLlA, yn hytrach na threfnu 'Ffurf Fer' a fyddai'n creu mân ddiwygiadau

yn unig (e.e. newid geiriad polisïau unigol neu ychwanegu safleoedd unigol a ddyrannwyd) yn y CDLl presennol. Bernir bod angen CDLIA i gymryd i ystyriaeth ystod o Ddeddfau newydd, fframweithiau polisi, mentrau, tystiolaeth a materion gofodol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol ers i'r CDLl cyfredol gael ei fabwysiadu.

3.3.2 Pe na bai Adolygiad o'r CDLl yn cael ei gynnal, ni fyddai CCNPT yn gallu paratoi CDLIA (fel y cynigiwyd) na chynnig mân ddiwygiadau i'r CDLl presennol cyn diwedd cyfnod y CDLl cyfredol ym mis Rhagfyr 2026. Mae amserlen y CC drafft (Hydref 2023) yn nodi bod disgwyl mabwysiadu'r CDLIA ym mis Ebrill 2027, a byddai hynny'n gadael cyfnod o rai misoedd lle na fyddai CDLl mabwysiedig yn ei le. Mae Adroddiad Adolygu CDLl CNPT (CCNPT, 2020) yn cyfeirio, yn absenoldeb Cynllun Datblygu wedi'i ddiweddaru, at y ffaith y gellid wynebu pwysau gan y diwydiant datblygu trwy geisio cyflwyno safleoedd nad ydynt yn cyd-fynd â strategaeth y CDLl presennol, a seiliwyd ar adfywio economaidd. Ar hyn o bryd, galw cyfyngedig sydd am adeiladu tai yn CNPT, ac nid yw'r targedau tai yn cael eu cyrraedd. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai pwysau sylweddol i ddatblygu yn ystod y cyfnod byr pryd y byddai'r Cyngor heb Gynllun Datblygu mabwysiedig. Serch hynny, mae risg bosibl y gallai fod pwysau i ryddhau safleoedd tir glas mewn lleoliadau anghynaliadwy. Er y gallai'r galw hwnnw fod yn gyfyngedig, petai'n codi, gallai arwain at ystod o effeithiau niweidiol annerbyniol ar y pynciau amgylcheddol a ragnodwyd yn Atodlen 2 Rheoliad yr AAS.

# 4 Proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd

## 4.1 Tîm Prosiect yr AC

4.1.1 Mae AC y CDLIA sy'n dod i'r amlwg yn cael ei gyflawni'n annibynnol gan Stantec UK ar ran CCNPT.

4.1.2 Mae'r ffaith bod y tîm ymgynghorol sy'n ymwneud â chynnal yr AC hwn yn annibynnol yn helpu i sicrhau gwrthrychedd yr AC a nodi'r elfennau y mae angen eu gwella ar hyd ei ddatblygiad. Mae hynny'n golygu bod modd datblygu argymhellion annibynnol o ran lliniaru a gwella, a'u rhoi ar waith wrth i'r CDLIA newydd esblygu, er mwyn gwella'i effeithiolrwydd.

## 4.2 Adrodd ar AC ac AAS Blaenorol

4.2.1 Ym mis Medi 2023 ymgynghorwyd ar Adroddiad Rhychwantu ACI, oedd yn ymgorffori sgrinio AAS, gyda Chyrff Ymgynghori'r AAS.

4.2.2 Diben deuol Adroddiad Rhychwantu'r ACI oedd darparu gwybodaeth berthnasol i alluogi Cyrff Ymgynghori'r AAS i ystyried yr angen am AAS a ffurfio barn ar y cyfnod ymgynghori a chwmpas/lefel y manylder priodol ar gyfer Adroddiad(au) ACI i gyd-fynd â phob elfen derfynol o'r CDLIA sy'n dod i'r amlwg. Un o amcanion allweddol Adroddiad Rhychwantu'r ACI oedd nodi Fframwaith AC seiliedig ar dystiolaeth i asesu'n systematig effeithiau cynaliadwyedd tebygol elfennau terfynol o'r CDLIA sy'n dod i'r amlwg. Mae'r Fframwaith AC yn cynnwys:

- Amcanion arfaethedig yr ACI (gweler **Tabl C1** yn **Atodiad C yn Adroddiad yr ACI**);
- Cyfres o Gwestiynau Canllaw perthnasol ynghylch pob un o Amcanion yr ACI (**Tabl C2** yn **Atodiad C2 yn Adroddiad yr ACI**). Yn amodol ar y farn a fynegir gan y Cyrff Ymgynghori perthnasol, defnyddir hyn mewn asesiad ansoddol o bob elfen derfynol sy'n dod i'r amlwg yn y CDLIA, ac unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol a nodir, er mwyn nodi eu heffeithiau sylweddol tebygol (LSE) yn gymesur; a
- Chyfres o ddangosyddion cynaliadwyedd, y bwriedir eu hystyried wrth i CCNPT asesu safleoedd ymgeisiol. Lluniwyd y dangosyddion hyn i lywio CCNPT yn y broses o asesu safleoedd. Bydd y dangosyddion yn cefnogi ACI sy'n cydymffurfio'n gyfreithiol, ac sy'n nodi'r gofynion o ran asesu effeithiau statudol. Bydd proses integredig o ddethol safleoedd ac asesu safleoedd ar gyfer yr ACI yn bosibl trwy'r fframwaith, i osgoi dyblygu asesiadau. Manylir ar y rhain yn **Nhabl C2** a **Thabl C3 yn Atodiad C yn Adroddiad yr ACI**.

## 4.3 Ymgynghori Anffurfiol ar y Materion Allweddol, y Weledigaeth, yr Amcanion, Twf a'r opsiynau Gofodol

4.3.1 Fel rhan o'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer y CDLIA, cynhaliodd CCNPT ymgynghoriad anffurfiol ar y Materion Allweddol, y Weledigaeth, yr Amcanion, Twf a'r Opsiynau Gofodol o 14 Mai 2024 tan 5 Mehefin 2024.

4.3.2 Mae'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad anffurfiol hwn wedi helpu i lywio Strategaeth a Ffafrir y CDLIA.

## 4.4 Ymgysylltu â Chyrff Ymgynghorol yr AAS

4.4.1 Ymgynghorwyd â'r ymgyngoreion statudol (Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) ynghylch Adroddiad Rhychwantu Drafft (a Newidiwyd) yr Asesiad Cynaliadwyedd Integredig (ARhACI) dros gyfnod o 5 wythnos rhwng 19 Medi 2023 a 24 Hydref 2023. Ni chafwyd ymatebion gan yr ymgyngoreion statudol yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## 4.5 Paratoi'r Adroddiad ACI hwn

4.5.1 Gan adeiladu ar adroddiadau ACI blaenorol, paratowyd yr Adroddiad ACI i gyd-fynd â Dogfennau Cyn-Adnau y CDLl, h.y. Strategaeth a Ffafrir y CDLl a'r Papurau Cefndir cysylltiedig. Mae'r Adroddiad ACI hwn yn cyflwyno canfyddiadau arfarniad a gynhaliwyd i nodi, asesu a gwerthuso Effeithiau Sylweddol Tebygol (LSEs) y prif gynigion sy'n rhan o Strategaeth a Ffafrir y CDLl. Wrth wneud hynny, mae pob prif elfen neu gynnig, ynghyd ag unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol a nodwyd (gweler isod), wedi bod yn destun asesu yn erbyn 13 Amcan yr AC, a ddiffiniwyd yn Fframwaith terfynol ACI Adolygiad CDLl CNPT (**Atodiad C o'r Adroddiad ACI**). Nodir canfyddiadau'r AC hwnnw yn yr adroddiad yma.

### Ystyried Dewisiadau Amgen Rhesymol

4.5.2 Mae Rheoliadau'r AAS yn gofyn bod LSEs wrth roi cynllun neu raglen ar waith (h.y. y CDLlA sy'n dod i'r amlwg) a dewisiadau amgen rhesymol yn cael eu harchwilio, yn ogystal â disgrifio'r rhesymeg ar gyfer nodi dewisiadau amgen rhesymol. Mae Rheoliadau'r AAS yn nodi ymhellach, er mwyn eu hystyried yn ddewisiadau amgen rhesymol, bod rhaid i opsiynau (e.e. meini prawf polisi neu ddyraniadau safle amgen) ymwneud ag amcanion cyfatebol a chwmpas daearyddol y cynllun neu'r rhaglen. I fod yn gymwys i'w hystyried ym mhroses yr AC hwn, felly, (sy'n ymgorffori'r AAS), rhaid i ddewisiadau amgen rhesymol fod:

- Yn realistig, yn yr ystyr eu bod yn ddewisiadau amgen posibl y gellid eu rhoi ar waith yn lle cynigion sy'n rhan o'r CDLlA sy'n dod i'r amlwg, a'u bod yn cyd-fynd â fframweithiau polisi cenedlaethol ac eraill sy'n berthnasol.
- Yn ymwneud ag amcanion y CDLlA sy'n dod i'r amlwg.
- O fewn cwmpas daearyddol y CDLlA sy'n dod i'r amlwg, h.y. byddai angen i unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol ymwneud â dosbarthiad neu nodweddion datblygu yn y dyfodol yn ardal CNPT.

4.5.3 Gan adlewyrchu cynnwys Strategaeth a Ffafrir y CDLl, gallai'r dewisiadau amgen yn y fan hon ymwneud ag elfennau fframwaith strategol (y Weledigaeth, yr Amcanion neu Dwf a'r Strategaeth Ofodol) neu fecanweithiau gweithredu strategol (Safleoedd Strategol Allweddol a Pholisïau Strategol):

- **Y Weledigaeth a'r Amcanion**: gan fod rhaid i ddewisiadau amgen rhesymol gyfeirio at amcanion y cynllun dan sylw, ni ellid canfod dewisiadau amgen rhesymol i Weledigaeth y CDLl arfaethedig na'r Amcanion a geir yn y Strategaeth a Ffafrir, gan y byddai unrhyw ddewisiadau amgen yn newid cyfeiriad strategol y CDLlA sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, nodwyd a chynigiwyd argymhellion i wella effeithiolrwydd yr elfennau hyn ymhellach.
- **Twf a Strategaeth Ofodol**: Bu'r opsiynau, y gellir eu hystyried yn ddewisiadau amgen rhesymol, yn destun ymgynghori anffurfiol, fel yr adroddwyd yn y papur Cefndir ar Dwf ac Opsiynau Gofodol, oedd yn cyd-fynd â'r Strategaeth a Ffafrir. Yn unol â Rheoliad 12.3(d) o'r Rheoliadau AAS, nid oes angen ailasesu'r dewisiadau amgen rhesymol hyn i elfennau fframwaith strategol arfaethedig Strategaeth a Ffafrir y CDLl, ac ni nodwyd unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol newydd.
- **Safleoedd Allweddol**: Cynhaliwyd tri ymarferiad Galwad am Safleoedd gan CCNPT: y cyntaf yng ngwanwyn 2022, lle cafwyd 229 o ymatebion ynghylch safleoedd ymgeisiol, yr ail yn hydref/gaeaf 2023, lle cafwyd 77 o safleoedd ymgeisiol, a'r drydedd, galwad am safleoedd capasiti trefol yn hydref/gaeaf 2023, lle cafwyd 167 o safleoedd.
- Fel yr adroddwyd yn y Papur Safleoedd Allweddol, nodwyd 9 safle gan CNPT fel Safleoedd Allweddol. Safleoedd yw'r rhain sy'n darparu naill ai mwy na 250 o gartrefi, neu seilwaith, neu gyflogaeth ar raddfa benodol. Mae'r holl Safleoedd Ymgeisiol wedi

cael eu hidlo yn ôl a ydyn nhw'n gallu darparu 10 o anheddau a chyfyngiadau sylfaenol. Mae safleoedd a hidlwyd yn llwyddiannus, a safleoedd capasiti trefol, wedi cael eu hystyried fel rhai a allai fod yn ddewisiadau amgen rhesymol ac wedi bod yn destun lefel gyfartal o asesiadau safle, gan ddefnyddio meini prawf sy'n cyfateb i Fframwaith ACI Adolygiad CDLl CNPT (**Atodiad C o Adroddiad yr ACI**).

- **Polisïau Strategol**: esbonnir y rhesymeg ar gyfer datblygu polisïau strategol unigol a gynigir yn llawn yn Strategaeth a Ffafrir y CDLl. Ym mhob achos, bernir bod y polisi strategol yn angenrheidiol naill ai i roi gofynion polisi statudol a chenedlaethol lefel uwch ar waith, neu fel arall i ymdrin â materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd. Mae'r angen a nodwyd am bob polisi, ynghyd â'u natur lefel uchel ac absenoldeb meini prawf gweithredu manwl (a fydd yn dilyn yng nghyfnod Adnau'r CDLl) yn golygu na fu modd, yn y fan hon, i ni nodi dewisiadau amgen rhesymol penodol i'r polisïau strategol a gynigiwyd. Fodd bynnag, fel y manylir yn **Adran 5 o Adroddiad yr ACI**, datblygwyd cyfres o argymhellion i wella effeithiolrwydd ac eglurder y polisïau strategol a gynigir yng nghyfnod Dogfen Adnau'r CDLl. Trwy ddiffiniad, byddai rhoi'r argymhellion hyn ar waith yn newid y polisïau strategol ac yn gwella'u perfformiad cynaliadwyedd.

# 5 Canfyddiadau'r AC

## 5.1 AC Fframwaith Strategol Arfaethedig y CDLI

5.1.1 Mae Gweledigaeth, Amcanion Strategol ac elfennau Twf a Strategaeth Ofodol Strategaeth a Ffafrir y CDLIA yn ceisio darparu fframwaith strategol trosfwaol yn sylfaen ar gyfer holl elfennau eraill y CDLIA sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys polisïau a dyraniadau safle. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod Gweledigaeth ac Amcanion y CDLIA yn rhoi sylw digonol, diamwys i'r holl faterion cynaliadwyedd allweddol, fel bod modd ymdrin â nhw'n fanylach trwy elfennau eraill anstrategol o'r CDLIA.

### Y Weledigaeth

5.1.2 Mae Strategaeth a Ffafrir y CDLIA yn cyflwyno Gweledigaeth ar gyfer twf CNPT yn ystod cyfnod y CDLIA hyd at 2038. Mae'r weledigaeth yn nodi'r dyheadau ar gyfer y fwrdeistref sirol a'r disgwyliadau o ran sut dylid darparu ar gyfer newid a datblygu dros gyfnod y cynllun. Dylid dylanwadu ar weledigaeth y cynllun a sicrhau ei bod yn cyd-fynd â gweledigaethau eraill tebyg a gyflwynir mewn cynlluniau a strategaethau eraill perthnasol. Ymhlith y gweledigaethau a gymerwyd i ystyriaeth fel rhan o'r broses hon mae Gweledigaeth CDLI cyntaf CNPT, Deilliannau Cymru'r Dyfodol, ac Amcanion Llesiant CNPT.

5.1.3 Mae Cymru'r Dyfodol a Chynllun Corfforaethol a Chynllun Llesiant CNPT i gyd yn mynegi eu gweledigaethau fel cyfres o ddeilliannau a ddymunir, a chynigir dull gweithredu tebyg ar gyfer y CDLIA, gan nodi deilliant a ddymunir ar gyfer pob un o'r Materion Allweddol/meysydd pwnc, fel y nodir isod.

5.1.4 Cyflwynir manylion llawn am y broses o ddatblygu'r Weledigaeth, gan gynnwys mewnbwn rhanddeiliaid, yn y Papur Cefndir Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion. Nodwyd cyfanswm o 14 o ddeilliannau drafft i'r CDLIA.

5.1.5 Yn ystod y broses o baratoi'r CDLIA, cynhaliwyd AC o Weledigaeth CDLIA ddrafft, a barnwyd bod Gweledigaeth y CDLIA yn darparu sylw a chydnawsedd da ar draws y pynciau cynaliadwyedd. Cynigiwyd rhai awgrymiadau pellach i gynnwys materion creu lleoedd a chefnogi rhwydweithiau ecolegol cydnerth. O ganlyniad, lluniwyd Gweledigaeth ddiwygiedig ar gyfer y CDLIA trwy broses yr AC, ac ymgynghorwyd arni ym mis Mai 2024. Gan adeiladu ar y gwaith blaenorol hwn, mae Strategaeth a Ffafrir y CDLI yn awr yn cyflwyno fersiwn lawnach o Weledigaeth y CDLIA yr ymgynghorwyd arni'n flaenorol. Gwelir AC y CDLIA yn Nhabl D1 o Atodiad D yn Adroddiad yr ACI.

### Amcanion

5.1.6 Bwriedir i Amcanion y CDLIA nodi beth mae'r cynllun yn ceisio'i gyflawni o ran pob un o'r pynciau, er mwyn cyflawni'r deilliannau sy'n rhan o'r weledigaeth. O ganlyniad, mae'r amcanion yn cyfateb i'r materion allweddol a'r deilliannau.

5.1.7 Yn ystod y broses o baratoi'r CDLIA, cyflwynwyd awgrymiadau ynghylch amcanion drafft y CDLI.

5.1.8 Cefnogir Gweledigaeth arfaethedig y CDLI gan gyfres o 14 o Amcanion a fydd yn nodi sut cyflawnir y weledigaeth. Fel yn achos y Materion Allweddol a'r Weledigaeth, mae'r rhain wedi cymryd i ystyriaeth ymgysylltiad rhanddeiliaid a cheir manylion llawn y broses ddatblygu yn y Papur Cefndir Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion.

5.1.9 Ceir asesiad manwl o gydnawsedd a chwmpas Amcanion Strategol arfaethedig y CDLI yn erbyn Amcanion yr AC o Fframwaith AC Adolygiad CDLI CNPT (**Atodiad C yn Adroddiad yr ACI**) yn **Nhabl D1** o **Atodiad D yn adroddiad yr ACI**. Fel yn y Weledigaeth a gynigir ar gyfer y CDLIA, dyheadau yw'r Amcanion Strategol a gynigir, ac maent yn gyffredinol gydnaws â

chyflawni deilliannau cynaliadwyedd llesol. Ar ben hynny, mae'r arfarniad a geir yn **Nhabl D1** o **Atodiad D** yn dangos bod y gyfres o Amcanion Strategol a gynigir, o'i darllen gyda'i gilydd, yn rhoi sylw da i'r rhan fwyaf o Amcanion yr AC oddi mewn i Fframwaith AC CDLl CNPT.

## Twf a Strategaeth Ofodol

5.1.10 Yn unol â'r gofynion statudol, mae Strategaeth a Ffafrir CDLIA yn cyflwyno strategaeth newydd ofodol a thwf ar gyfer CNPT ('y strategaeth newydd') dros gyfnod y CDLIA hyd at 2038. Mae'r strategaeth newydd hon a gyflwynir yn Strategaeth a Ffafrir y CDLIA yn adeiladu ar ddatblygiad blaenorol cyfres o opsiynau gofodol a thwf cyferbyniol (opsiynau lefel twf, opsiynau dosbarthiad gofodol a hierarchaeth aneddiadau). Bydd manylion y gwahanol strategaethau gofodol a thwf yn cyfeirio at y Papur Cefndir Twf ac Opsiynau Gofodol. Bu'r opsiynau hyn, y gellir eu hystyried yn ddewisiadau amgen rhesymol at ddibenion yr AC hwn (sy'n ymgorffori'r AAS), i gyd yn destun ymgynghori anffurfiol ac AC manwl yn ystod y broses o baratoi'r cynllun.

**Lefel Twf**

5.1.11 Mae CCNPT wedi datblygu nifer o opsiynau twf sy'n archwilio lefel yr angen economaidd a'r angen am dai a allai godi yn CNPT yn ystod cyfnod 15 mlynedd y cynllun, sef 2023-2038.

5.1.12 Paratowyd Asesiad Twf Economaidd a Thai (EHGA), gan ddatblygu opsiwn sy'n rhoi sylw i ddemograffeg, tueddiadau'r gorffennol a ffactorau seiliedig ar bolisi, yn ogystal â'r berthynas rhwng tai a'r economi leol. Mae'r dystiolaeth yn defnyddio rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd swyddogol LlC ynghyd â data demograffig arall o'r amcangyfrifon Canol Blwyddyn a'r Cyfrifiad a rhagolwg economaidd gan dŷ rhagweld blaenllaw, ac mae'n cymryd i ystyriaeth nifer o newidiadau cyd-destunol, gan gynnwys y cynnig llwyddiannus am y Porthladd Rhydd Celtaidd, a'r ailstrwythuro cysylltiedig â'r pontio yng ngwaith dur TATA, sy'n digwydd ar hyn o bryd. Ceir manylion pellach am yr holl opsiynau twf a ystyriwyd yn y papur cefndir ar Dwf ac Opsiynau Gofodol.

5.1.13 Cafodd yr holl opsiynau twf a ystyriwyd eu cyfyngu i'r rhai y barnwyd eu bod yn opsiynau realistig a chyflawnadwy, ac wedi hynny bu'r 7 opsiwn twf yn destun ymgynghori cyhoeddus anffurfiol rhwng 14 Mai a 5 Mehefin 2024.

5.1.14 Ceir dadansoddiad o'r opsiynau twf a ystyriwyd yn y papur cefndir Twf ac Opsiynau Gofodol. Cyflwynir AC yr opsiynau twf yn **Nhabl D2** o **Atodiad D yn adroddiad yr ACI**.

5.1.15 Yn dilyn y dadansoddi, ynghyd â'r ACI, ymgynghori anffurfiol â'r cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, bernir mai **Opsiwn 3**, y senario Ategol a Addaswyd, yw'r opsiwn twf mwyaf priodol i'w ddatblygu fel lefel twf a ffafrir yn y CDLIA, am y rhesymau canlynol:

- Bydd yn hyrwyddo cyfradd adeiladu tai sy'n gyflawnadwy ond yn uchelgeisiol, gan roi sylw i dueddiadau'r gorffennol.
- Mae'n cymryd i ystyriaeth lefelau digartrefedd cyfredol yr Awdurdod.
- Cymerir aelwydydd iau, sy'n guddiedig o ganlyniad i lefelau isel o adeiladu tai yn y blynyddoedd diwethaf, i ystyriaeth trwy gymhwyso addasiad Cyfradd Aelodaeth Aelwydydd (HMR).
- Mae'n adlewyrchu'r cyd-destun economaidd unigryw wrth i Waith Dur Tata bontio, ond hefyd yn cefnogi'r uchelgais o ran adferiad economaidd a gynhelir gan y Porthladd Rhydd Celtaidd a buddsoddiadau eraill a gynlluniwyd, gan gynnwys Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd a Chanolfan Antur Cwm Afan.

**Dosbarthiad Gofodol**

5.1.16 Mae penderfynu ble dylid dosbarthu datblygu ar draws CCNPT yn ystyriaeth allweddol ar gyfer y Strategaeth a Ffafrir. Mae hon yn dasg bwysig oherwydd bydd yn cael dylanwad mawr ar ddyfodol ein cymunedau. Mae angen rhyddhau tir nid yn unig i fodloni'r lefel o dwf a ffafrir, ond hefyd i roi sylw i'r materion allweddol a nodwyd uchod. Oddi mewn i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, bernir bod y strategaeth ofodol yn darparu sylfaen ar gyfer pob elfen o'r cynllun.

5.1.17 Bydd angen i bob opsiwn gofodol sy'n cael ei ystyried roi sylw i'r ddeddfwriaeth, polisi cynllunio cenedlaethol, a strategaethau lleol a rhanbarthol. Ar ben hynny, rhaid i bob opsiwn gofodol gymryd i ystyriaeth nodweddion, asedau a materion penodol yn CCNPT, a cheisio llywio datblygiad mewn ffordd sy'n ymateb i hyn.

5.1.18 Er mwyn sicrhau bod y strategaeth ofodol yn gyflawnadwy, mae rhaid iddi ddiwallu anghenion y cymunedau lleol a hefyd bod yn ddichonadwy, fel bod y sectorau cyhoeddus a phreifat yn abl ac yn barod i fuddsoddi yn yr ardaloedd a nodwyd. Mae rhai materion polisi cynllunio allweddol y mae angen eu hystyried wrth ffurfio'r strategaeth ofodol, gan eu bod yn rhan annatod o unrhyw strategaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Defnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol cyn safleoedd tir glas yn y lle cyntaf;
- Ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu;
- Hyrwyddo egwyddorion creu lleoedd;
- Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy;
- Hyrwyddo'r Gymraeg;
- Mwyafu cyfleoedd i wella'r seilwaith gwyrdd; ac
- Ymateb i argyfwng byd natur trwy sicrhau budd net i fioamrywiaeth.

5.1.19 Ar ben hynny, rhaid i'r strategaeth ofodol hon gynorthwyo i gyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion.

5.1.20 Wrth benderfynu sut dylid dosbarthu twf yn ofodol ar draws yr awdurdod, ystyriwyd ac ymgynghorwyd ar nifer o opsiynau. Gan fod CDLl a fabwysiadwyd gan CCNPT eisoes, aseswyd Strategaeth y CDLl presennol ochr yn ochr â phum strategaeth arall amgen i benderfynu a yw'n dal yn briodol yn y cyd-destun polisi cyfredol.

5.1.21 Ceir dadansoddiad cyflawn o'r chwe opsiwn gofodol yn y Papur Cefndir Twf ac Opsiynau Gofodol, lle rhoddir sylw i fanteision ac anfanteision allweddol pob opsiwn gofodol. Mae pob un o'r opsiynau strategaeth hefyd wedi cael eu hystyried fel rhan o'r ACI (**Tabl D3** o **Atodiad D** yn **adroddiad yr ACI**).


5.1.22 Ar ôl dadansoddi'r opsiynau, ochr yn ochr â'r digwyddiad ymgynghori anffurfiol ac allbwn y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid, y dull gweithredu hybrid, Opsiwn F (**Ffigur NTS-5.1**) yw'r mwyaf priodol, gan mai dyma'r un sy'n cyfateb orau i ofynion polisi Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru a Llwybr Newydd- Strategaeth Trafnidiaeth Cymru.

5.1.23 Bydd Opsiwn F yn darparu'r rhan fwyaf o dwf ar hyd Coridor yr Arfordir a'r Ardal Dwf Genedlaethol lle cydleolir swyddi a chartrefi, er mwyn lleihau cymudo. Bydd y rhan fwyaf o'r datblygu a'r buddsoddi yn parhau i ddilyn grymoedd y farchnad, gyda thai, cyflogaeth a datblygiad masnachol wedi'u canolbwyntio ar hyd Coridor yr Arfordir a'r Ardal Dwf Genedlaethol. Bydd hynny'n golygu bod modd i ddatblygu fod yn agos at y prif ganolfannau poblogaeth (gan sicrhau bod tai fforddiadwy yn targedu'r ardaloedd lle mae'r angen mwyaf) ac yn cefnogi'r cyfleusterau a'r gwasanaethau yng nghanol y trefi.

5.1.24 Nodir Castell-nedd a Phort Talbot fel rhan o gynllun Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru Trafnidiaeth Cymru. Trwy hyrwyddo'r ardaloedd hyn, byddwn ni'n cyflwyno prif fanteision y Metro, y rhwydwaith trafnidiaeth presennol, a hefyd y llwybrau Teithio Llesol, a bydd o gymorth i ddarparu dulliau teithio heblaw'r car preifat i drigolion Coridor yr Arfordir a'r Ardal Dwf Genedlaethol. Yn Ardal Cyfle'r Cymoedd, rhoddir llwybrau Teithio Llesol blaenorol a newydd ar waith, a mwyafir y defnydd o'r seilwaith sydd eisoes yn bodoli.

5.1.25 Mae'r opsiwn yma hefyd yn mwyafu manteision dyheadau'r Porthladd, y Porthladd Rhydd a Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'n cydnabod bod ailstrwythuro economaidd sylweddol yn digwydd ar hyn o bryd, yn dilyn cyhoeddiad Tata Steel ym mis Medi 2023 eu bod yn gosod ffwrnais arc drydan yn lle'r ddwy ffwrnais chwyth bresennol. Bydd hefyd yn symud ymlaen gyda'r adfywio arfaethedig yn Ardal Cyfle'r Cymoedd trwy fwyafu'r prif gyfleoedd treftadaeth, twristiaeth a chyflogaeth sy'n dod i'r amlwg. Er mwyn ategu hynny, bydd angen twf cymedrol sy'n gymesur â rôl, swyddogaeth a haen yr anheddiad yng nghymunedau'r Cymoedd. Bydd y strategaeth cyflogaeth yn annog twristiaeth a mentrau ar raddfa lai i fwyafu potensial cyfleoedd twristiaeth a diwallu anghenion cymunedau lleol.

5.1.26 Yn ogystal, fel rhan o Ardal Cyfle'r Cymoedd, nodir Pontardawe a'r cyffiniau a Glyn-nedd fel hybiau yn y cymoedd.




© Crown copyright 2024 OS 100023392. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-license, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

**Ffigur NTS-5.1** Y Strategaeth Ofodol a Ffafrir (h.y. Opsiwn F)

## 5.2 AC o Safleoedd Strategol

5.2.1 Cynhaliwyd proses asesu safleoedd integredig gan CCNPT i fodloni gofynion yr ACI (gan gynnwys AAS) a dethol dyraniadau safle i'w cynnwys yn y CDLlA. Mae hynny wedi nodi'r safleoedd strategol sy'n angenrheidiol i gyflawni Strategaeth a Ffafrir y CDLlA. Crynhoir y fethodoleg yn y Fethodoleg ar gyfer Asesu Safleoedd Ymgeisiol (Tachwedd 2023).

5.2.2 Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol yw'r cyfnod cyntaf ffurfiol wrth baratoi'r CDLlA wedi i'r CC gael ei gytuno a'i gyhoeddi. Trwy'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, mae'r Cyngor wedi gwahodd datblygwyr, tirfeddianwyr, hyrwyddwyr safleoedd, cyrff cyhoeddus, darparwyr gwasanaeth ac eraill sydd â diddordeb mewn tir i gyflwyno safleoedd y maent am iddynt gael eu hystyried i'w datblygu neu eu diogelu. Cynhaliwyd yr ymarferiad galwad am safleoedd dair gwaith. Cynhaliwyd galwad gyntaf am safleoedd yng ngwanwyn 2022, a chafwyd 229 o ymatebion yn cynnig safleoedd ymgeisiol; cynhaliwyd ail alwad am safleoedd yn hydref/yng

ngaeaf 2023, pryd y cafwyd 77 o safleoedd ymgeisiol, a chynhaliwyd trydedd galwad am safleoedd capasiti trefol yn hydref/yng ngaeaf 2023, pryd y cafwyd 167 o safleoedd.

5.2.3 Yna cynhaliodd y Cyngor Asesiad Safleoedd Ymgeisiol Cychwynnol Cyfnod 1 gyda'r asesiad pen desg tri cham canlynol o'r holl safleoedd a gyflwynwyd: (1) Hidlo yn ôl Maint Safleoedd; (2) Hidlo yn ôl Cyfyngiadau Sylfaenol a (3) Hidlo yn ôl Cyflawnadwyedd. Defnyddiwyd meddalwedd GIS i hidlo safleoedd yn ôl a oes unrhyw gyfyngiadau sylfaenol arnynt. Os yw'r cyfyngiad yn rhan o ffin y safle, rhoddwyd ystyriaeth bellach i weld a ellid lliniaru effaith y datblygiad. Adroddwyd crynodeb o'r canfyddiadau yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir.

5.2.4 Cynhaliwyd Asesiad Safleoedd Ymgeisiol Cyfnod 2 ar yr holl safleoedd a hidlwyd. Mae Asesiad Safleoedd Ymgeisiol Cyfnod 2 yn cynnwys (1) Arfarniad dichonoldeb; (2) Asesiad ACI (meintiol ac ansoddol) ac asesiad Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol; a (3) Ymgysylltu â darparwyr seilwaith. Mae'r Cyngor wedi adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd ac yn y lle cyntaf mae'n cwblhau adolygiad lefel uchel o briodoldeb yr wybodaeth a gyflwynwyd, gan ddefnyddio'r Adolygiad Lefel Uchel rhanbarthol cytunedig ar gyfer Arfarniad Dichonoldeb Ariannol Safleoedd Ymgeisiol. Wedi hynny, mae'r Cyngor wedi cynnal Asesiad Addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol Manwl ac ACI ar yr holl safleoedd a hidlwyd. Yn olaf, ymgysylltwyd â'r darparwyr seilwaith i nodi cyfyngiadau seilwaith. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir.

5.2.5 Ar sail yr asesiad uchod, diffiniwyd 9 safle fel safleoedd tai a chyflogaeth sy'n debygol o fedru gwneud cyfraniad da iawn at yr amcanion creu lleoedd, sy'n cyfateb i weledigaeth y CDLIA, ac sy'n helpu i gyflawni'r strategaeth ofodol. Dyma'r 9 safle:

- Coed Hirwaun
- Tir i'r dwyrain o'r Rhos
- Tir yn ymyl Blaenbaglan
- Fferm Fforest
- Porthladd Port Talbot
- Gwaith Dur Port Talbot
- Parc Ynni Baglan
- Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd (GCRE)
- Canolfan Antur Cwm Afan

## 5.3 AC o'r Polisïau Strategol

5.3.1 Ceir yr arfarniad manwl o'r effeithiau a ragwelir yn sgîl y polisïau strategol yn **Atodiad E** o **Adroddiad yr ACI**. Cynhaliwyd yr asesiad trwy grwpio polisïau, yn ôl pob pennod o'r polisïau strategol sy'n rhan o Strategaeth a Ffafrir y CDLIA. Roedd hynny'n golygu bod modd cynnal asesiad cymesur o bob polisi ac o effeithiau cronnol pob grŵp o bolisïau, gan ganolbwyntio ar y materion cynaliadwyedd mwyaf perthnasol i'r polisi neu'r polisïau oedd yn cael eu hasesu.

5.3.2 Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o bolisïau strategol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol neu effaith gadarnhaol fuddiol ar Amcanion yr AC. Ni ragwelir y bydd dim o'r polisïau strategol arfaethedig yn cael effeithiau negyddol (h.y. niweidiol) ar Amcanion yr AC. Fodd bynnag, fel y manylir yn **Atodiad E** o **Adroddiad yr ACI**, nid oes perthynas glir rhwng nifer o'r polisïau strategol a rhai o Amcanion yr AC, neu mae eu heffaith yn niwtral. Canfuwyd

rhai elfennau ansicr a materion sydd ar hyn o bryd yn cyfyngu ar gyfraniad rhai polisïau strategol a aseswyd i Amcanion yr AC.

## 5.4 Asesiad o Effeithiau Cronnol ac Effeithiau Synergaidd

5.4.1 Wedi i'r holl elfennau pwysig unigol gael eu harfarnu, cynhaliwyd ACI i nodi unrhyw effeithiau cronnol neu synergaidd tebygol o ganlyniad i ryngweithiad elfennau'r CDLIA sy'n dod i'r amlwg. Mae **Tablau NTS-5.1 ac NTS-5.2** yn crynhoi'r canfyddiadau ar gyfer arfarnu'r CDLIA.

5.4.2 Mae **Atodiadau F, G** ac **H** o **adroddiad yr ACI** yn crynhoi'r arfarniad o effaith gymesur ar Gydraddoldeb, Iechyd a'r Gymraeg yn y CDLIA.

### Cyfnod Adeiladu

**Tabl NTS-5.1:** Crynodeb ACI o'r Strategaeth a Ffafrir o ran y Cyfnod Adeiladu

| Pwnc yn yr ACI | Effaith Sylweddol Weddilliol Debygol |
|---|---|
| 1 **Iechyd a Llesiant**: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gynnwys iechyd corff a meddwl, llesiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol, gan gynnwys trwy seinluniau priodol i'r cyd-destun a gostyngiadau i lygredd golau. | 0 |
| 2. **Cydraddoldeb a Chynhwysiad Cymdeithasol:** Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, hybu cyfle cyfartal, lleihau anfantais sosio-economaidd, taclo eithrio cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol. | + |
| 3. **Trafnidiaeth a Chyfathrebu**: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd trwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy, ochr yn ochr â sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o safon uchel. | ~ |
| 4. **Twf Economaidd Cynhwysol:** Cynyddu nifer a safon y cyfleoedd cyflogaeth a gwella lefelau addysg a sgiliau, ochr yn ochr â mwyafu cyfraniad economaidd ardal CCNPT i Ranbarth Dinesig Bae Abertawe, gan gynnwys trwy arallgyfeirio a chryfhau'r sylfaen economaidd leol | + |
| 5. **Tai**: Darparu nifer ac ystod digonol o dai fforddiadwy, o safon dda mewn lleoliadau cynaliadwy i ymateb i'r anghenion a nodwyd. | ~ |
| 6. **Ansawdd Aer**: Atal a lleihau allyriadau a chrynodiadau o lygryddion atmosfferig niweidiol a lleiafu cysylltiad ag ansawdd aer gwael | 0 |
| 7. **Newid yn yr Hinsawdd**: Mabwysiadu mesurau lliniaru ac addasu priodol i leihau ac ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. | - |
| 8. **Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd**: Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, gan gynnwys trwy ddiogelu safleoedd a rhywogaethau pwysig, gwella'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd a diogelu adnoddau pwysig o ran pridd. | 0 |

| Pwnc yn yr ACI | Effaith Sylweddol Weddilliol Debygol |
|---|---|
| 9. **Dŵr a Pherygl Llifogydd**: Cadw, gwarchod a gwella amgylcheddau arfordirol a dŵr, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, ochr yn ochr â lleihau perygl llifogydd. | 0 |
| 10. **Asedau materol a Gwastraff**: Cyfrannu at roi'r economi gylchol ar waith, rheoli gwastraff gyda'r effeithiau lleiaf posibl ar yr amgylchedd a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau adeiladu. | - |
| 11. **Creu Lleoedd Cynaliadwy:** Mwyafu defnydd effeithlon o dir a seilwaith a gwella ansawdd dylunio er mwyn creu lleoedd gwych i bobl. | ~ |
| 12**. Treftadaeth Ddiwylliannol**: Cadw, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol ac asedau diwylliannol, gan gynnwys defnydd o'r Gymraeg. | 0 |
| 13. **Tirlun:** Gwarchod a gwella cymeriad y tirlun, amwynder gweledigol ac eglurder aneddiadau yn ardal CCNPT. | ? |

Allwedd i'r Sgoriau:

| Sgôr | Symbol |
|---|---|
| Effaith Gadarnhaol Sylweddol (Fawr) | ++ |
| Effaith Gadarnhaol Fechan | + |
| Effaith Niwtral | 0 |
| Effaith Negyddol Fechan | - |
| Effaith Negyddol Sylweddol (Fawr) | -- |
| Effaith Ansicr | ? |
| Dim Perthynas Glir | ~ |

5.4.3 Rhagwelir y bydd mesurau rheoli llygredd amgylcheddol a lliniaru traffig yn cael eu gweithredu yn ystod y cyfnod adeiladu. Yn achos prosiectau ar raddfa fawr, cynhelir asesiad effaith amgylcheddol ac asesiad effaith ar draffig. Ni ragwelir effeithiau niweidiol gweddilliol ar yr amgylchedd na thraffig. O ganlyniad, bernir bod hyn yn niwtral o ran yr amcanion Iechyd a Llesiant, Ansawdd Aer, Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd, Dŵr a Pherygl Llifogydd a Threftadaeth Ddiwylliannol.

5.4.4 Bydd y gwaith adeiladu yn rhoi hwb i'r economi leol ac yn defnyddio gweithwyr adeiladu. Gan fod gwaith adeiladu'n cael effaith dros dro, bernir bod budd bychan cadarnhaol o ran yr amcanion Twf Economaidd Cynhwysol a Chydraddoldeb a Chynhwysiad Cymdeithasol.

5.4.5 Yn ystod y gwaith adeiladu, cludir deunyddiau i'r safle, bydd gwastraff gweddilliol i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu mewn mannau eraill, a hefyd defnyddir tanwydd ar gyfer yr offer adeiladu, a bydd y deunyddiau adeiladu yn cynnwys carbon. Oherwydd bod gwaith adeiladu'n para dros dro, bernir y bydd effeithiau negyddol bychan yn achos Amcanion y Newid yn yr Hinsawdd ac Asedau Materol a Gwastraff.

5.4.6 Yn dibynnu ar eu lleoliad, bydd safleoedd a gweithgareddau adeiladu yn cael effaith weledol ac ar y tirlun. Serch hynny, dros dro mae'r effaith honno a gellir ei lleihau â mesurau lliniaru. O ganlyniad, bernir bod effaith ansicr/anhysbys o ran Amcan y Tirlun.

## Cyfnod Gweithredu

**Tabl NTS-5.2:** Crynodeb ACI o Gyfnod Gweithredu'r Strategaeth a Ffafrir

| Pwnc yr ACI | Effaith Sylweddol Weddilliol Debygol |
|---|---|
| 1 **Iechyd a Llesiant**: Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth, gan gynnwys iechyd corff a meddwl, llesiant cymdeithasol a diogelwch cymunedol, gan gynnwys trwy seinluniau priodol i'r cyd-destun a gostyngiadau i lygredd golau. | ++ |
| 2. **Cydraddoldeb a Chynhwysiad Cymdeithasol:** Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, hybu cyfle cyfartal, lleihau anfantais sosio- | ++ |

| Pwnc yr ACI | Effaith Sylweddol Weddilliol Debygol |
|---|---|
| economaidd, taclo eithrio cymdeithasol a hybu cydlyniant cymunedol. | |
| 3. **Trafnidiaeth a Chyfathrebu**: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd trwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy, ochr yn ochr â sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o safon uchel. | ++ |
| 4. **Twf Economaidd Cynhwysol:** Cynyddu nifer a safon y cyfleoedd cyflogaeth a gwella lefelau addysg a sgiliau, ochr yn ochr â mwyafu cyfraniad economaidd ardal CCNPT i Ranbarth Dinesig Bae Abertawe, gan gynnwys trwy arallgyfeirio a chryfhau'r sylfaen economaidd leol | ++ |
| 5. **Tai**: Darparu nifer ac ystod digonol o dai fforddiadwy, o safon dda mewn lleoliadau cynaliadwy i ymateb i'r anghenion a nodwyd. | ++ |
| 6. **Ansawdd Aer**: Atal a lleihau allyriadau a chrynodiadau o lygryddion atmosfferig niweidiol a lleiafu cysylltiad ag ansawdd aer gwael | + |
| 7. **Newid yn yr Hinsawdd**: Mabwysiadu mesurau lliniaru ac addasu priodol i leihau ac ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. | + |
| 8. **Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd**: Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, gan gynnwys trwy ddiogelu safleoedd a rhywogaethau pwysig, gwella'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd a diogelu adnoddau pwysig o ran pridd. | + |
| 9. **Dŵr a Pherygl Llifogydd**: Cadw, gwarchod a gwella amgylcheddau arfordirol a dŵr, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, ochr yn ochr â lleihau perygl llifogydd. | + |
| 10. **Asedau materol a Gwastraff**: Cyfrannu at roi'r economi gylchol ar waith, rheoli gwastraff gyda'r effeithiau lleiaf posibl ar yr amgylchedd a sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau adeiladu. | + |
| 11. **Creu Lleoedd Cynaliadwy:** Mwyafu defnydd effeithlon o dir a seilwaith a gwella ansawdd dylunio er mwyn creu lleoedd gwych i bobl. | ++ |
| 12**. Treftadaeth Ddiwylliannol**: Cadw, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol ac asedau diwylliannol, gan gynnwys defnydd o'r Gymraeg. | + |
| 13. **Tirlun:** Gwarchod a gwella cymeriad y tirlun, amwynder gweledigol ac eglurder aneddiadau yn ardal CCNPT. | ? |

Allwedd i'r Sgoriau:

| Sgôr | Symbol |
|---|---|
| Effaith Gadarnhaol Sylweddol (Fawr) | ++ |
| Effaith Gadarnhaol Fechan | + |
| Effaith Niwtral | 0 |
| Effaith Negyddol Fechan | - |
| Effaith Negyddol Sylweddol (Fawr) | -- |
| Effaith Ansicr | ? |
| Dim Perthynas Glir | ~ |

5.4.7 Mae'r Strategaeth a Ffafrir yn perfformio'n gadarnhaol yn erbyn y rhan fwyaf o amcanion yr ACI, gan gynnwys yn arbennig amcanion yr ACI o ran Iechyd a Llesiant, Lleoliadau Cynaliadwy, Cydraddoldeb a Chynhwysiad Cymdeithasol, Twf Economaidd Cynhwysol, Trafnidiaeth a Chyfathrebu a Thai, gydag effeithiau cadarnhaol hirdymor, trwy'r canlynol:

- cefnogi datblygu cynaliadwy sy'n gwreiddio egwyddorion creu lleoedd;
- cefnogi opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy;
- annog ffyrdd iachach a mwy actif o fyw;
- cefnogi datblygu economaidd i'r dyfodol;
- darparu fframwaith cynllunio sy'n cydbwyso cyflwyno cartrefi a swyddi newydd;
- meithrin buddsoddiad newydd, cyfleoedd cyflogaeth;
- darparu seilwaith cymunedol cysylltiedig i ddiwallu anghenion cymunedau.

5.4.8 Yn ogystal â chanolbwyntio twf ar hyd Coridor yr Arfordir a'r Ardal Dwf Genedlaethol ac Ardal Cyfle'r Cymoedd mae'r rhain yn darparu mwy o hygyrchedd o ran gwasanaethau/cyfleusterau a defnydd o ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy (gan gynnwys teithio llesol), a fydd yn cael effaith gadarnhaol fechan o ran amcanion y Newid yn yr Hinsawdd ac Ansawdd Aer.

5.4.9 Byddai'r Strategaeth yn cadw ac yn diogelu adnoddau, cronfeydd a seilwaith mwynau, ond ar yr un pryd yn gwneud cyfraniad priodol, cymesur i'r cyflenwad o fwynau er mwyn ymateb i'r angen yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

5.4.10 Ar ben hynny, mae'r strategaeth yn galluogi CNPT i wneud cyfraniad priodol at gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, ochr yn ochr ag annog cymryd pob cam priodol i leihau'r galw am ynni a gwella effeithlonrwydd ar draws pob sector. Gan fod cwmpas a lleoliad y datblygiadau'n anhysbys, bernir bod budd cadarnhaol bychan yn achos amcanion Asedau Materol a Gwastraff.

5.4.11 Mae'r Strategaeth yn gofyn bod ansawdd yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu a'i wella, a bod effeithiau niweidiol posibl problemau amgylcheddol presennol neu a ragwelir yn derbyn sylw, gan ddefnyddio dulliau dileu risgiau.

5.4.12 Mae'r Strategaeth hefyd yn gofyn bod datblygiad yn mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar seilwaith gwyrdd, ac yn cyflawni budd net o ran bioamrywiaeth. Gan fod cwmpas a lleoliad y seilwaith gwyrdd yn anhysbys, bernir y bydd manteision cadarnhaol bychan o ran amcan Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a'r Pridd ac amcan Dŵr a Pherygl Llifogydd.

5.4.13 Bydd y strategaeth hefyd yn ceisio hybu a diogelu'r dreftadaeth, gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Gan fod cwmpas a lleoliad treftadaeth yn anhysbys, bernir y bydd mantais gadarnhaol fechan o ran amcan Treftadaeth Ddiwylliannol.

5.4.14 Sylwer bod elfen o ansicrwydd yn achos rhai o amcanion yr ACI oherwydd natur strategol y Strategaeth a Ffafrir ac oherwydd nad yw union leoliad datblygiad yn hysbys yn y cyfnod yma. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos amcanion yr ACI sy'n ymwneud â'r Tirlun, gan y bydd natur a graddfa effeithiau'n dibynnu ar union leoliad, graddfa a dyluniad y datblygiad.

# 6 Y Camau Nesaf

6.1.1 Yn dilyn ymgynghori ar Ddogfennau Cyn Adnau y CDLl a'r Adroddiad ACI cysylltiedig, bydd yr holl ymatebion ymgynghori a ddaw i law yn cael eu hadolygu a'u defnyddio i lywio Dogfen Adnau CDLlA CCNPT, h.y. CDLlA llawn arfaethedig CCNPT. Bydd hynny'n adeiladu ar Strategaeth a Ffafrir y CDLlA i gyflwyno holl elfennau'r fframwaith strategol, y polisïau a'r dyraniadau safle y cynigir eu cynnwys yn CDLlA CCNPT. I gyd-fynd â Dogfen Adnau CDLlA CCNPT bydd Adroddiad ACI wedi'i ddiweddaru a'i ehangu, ac mae disgwyl ymgynghori ar y ddwy ddogfen ochr yn ochr â'i gilydd ym mis Rhagfyr 2025. Yn dilyn Archwiliad Cyhoeddus wedi hynny, bwriad CCNPT yw mabwysiadu CDLlA terfynol CCNPT.